

# Sgrinio ar gyfer grŵp gwaed, grŵp D a gwrthgyrff

**Canllaw hawdd** i brofion sgrinio pan fyddwch yn feichiog



## Yn y llyfryn hwn

## Tudalen



Eich dewis chi

3



Gwybodaeth am y  
prawf hwn

4



Grŵp gwaed, grŵp D  
a gwrthgyrff

5



Canlyniadau'r prawf

7



## Eich dewis chi



Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am brawf y gallech ei gael.

Gall y prawf ddarganfod eich grŵp gwaed a'ch grŵp D.

Gall y prawf ddweud mwy wrthym am eich grŵp gwaed a gallwn roi gwybodaeth i chi neu ddweud wrthyich am driniaeth ar eich cyfer chi neu'ch baban.



Gallwch ddewis cael y prawf neu beidio.

Gall y prawf eich helpu i wneud penderfyniadau am eich gofal pan fyddwch yn feichiog.

Gall y prawf ddangos a fydd angen gofal ychwanegol arnoch chi neu'ch babi.



Os ydych yn pryderu, gallwch siarad â'ch bydwraig neu feddyg teulu.



## Gwybodaeth am y prawf hwn



Dim ond i staff iechyd sydd angen eu gweld y byddwn yn dangos canlyniadau'r prawf.

Mae'n bwysig dweud wrth eich bydwraig os oes gennych unrhyw broblemau iechyd gyda'ch gwaed.




Mae'r prawf hwn yn cymryd ychydig bach o'ch gwaed i ddarganfod eich grŵp gwaed a'ch grŵp D, ac i edrych am unrhyw broblemau yn eich gwaed a allai wneud niwed i'ch babi.

Bydd y prawf hwn yn cael ei gynnal eto pan fyddwch chi 28 wythnos yn feichiog i edrych am yr un problemau.



## Grwp gwaed a gwrthgyrff



Bydd gennych un o'r grwpiau gwaed hyn

Grŵp A

Grŵp O

Grŵp B


Grŵp AB

Byddwch hefyd naill ai'n D positif neu'n D negatif.

Er enghraifft, gall eich grŵp gwaed gael ei ysgrifennu fel 'O RhD positif'



Bydd angen i'r bobl sy'n gofalu amdanoch chi yn ystod eich beichiogrwydd wybod beth yw eich grŵp gwaed rhag ofn y bydd angen trallwysiad gwaed arnoch chi. Fel arfer, bydd hyn ond yn digwydd os byddwch yn gwaedu llawer pan fyddwch yn cael eich babi.



Mae eich corff yn gwneud gwrthgyrff (*antibodies*) i'ch diogelu rhag niwed. Gallwch hefyd wneud gwrthgyrff os bydd celloedd gwaed eich babi yn cymysgu â'ch celloedd gwaed chi.

Weithiau, gall hyn wneud eich baban yn sâl.



Os bydd hyn yn digwydd, pan gaiff eich baban ei eni efallai y caiff ei dderyn i'r ysbyty.



Os ydych yn D negatif byddwch yn cael cynnig prawf arall i weld beth yw grŵp gwaed eich baban. pigiad neu bigiadau i chi i helpu i ddiogelu eich babi rhag gwrthgyrff yn ystod y beichiogrwydd.

Os nad oes gan eich baban yr un grŵp D â chi, byddwch yn cael cynnig pigiad (neu bigiadau) i helpu i amddiffyn eich baban rhag gwrthgyrff yn ystod beichiogrwydd.

Efallai y cewch gynnig hwn os:

- ydych yn gwaedu o'ch fagina
- ydych yn camesgor
- oes gennych anaf i'ch bol
- ydych yn cael nodwydd denau iawn yn cael bol ar gyfer prawf ymledol (amniosentesis neu samplu filws corionig (CVS), neu
- rydych wedi rhoi genedigaeth i'ch baban.



## Canlyniadau'r prawf



Byddwch fel arfer yn cael eich canlyniadau yn eich apwyntiad nesaf.

Efallai y byddwch yn cael rhagor o brofion gwaed os oes gennych wrthgyrff.

Os oes gennych wrthgyrff, efallai y bydd angen profion arbennig ar eich babi cyn yr enedigaeth.



Os ydych chi'n D negatif ac mad eich baban yn D positif pigiad i chi ar ôl 28 wythnos a phan fydd eich baban yn cael ei eni. Mae hyn er mwyn atal gwrthgyrff rhag niweidio'ch baban.

Os yw eich baban grŵp D â chi, ni fydd angen i chi gael y pigiad (neu'r pigiadau). Bydd y person sy'n gwneud y prawf yn dweud wrthyich am hyn.



Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich bydwaig os byddwch yn symud tŷ.